



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Department of
Agriculture, Environment
and Rural Affairs

Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

Ymateb y Llywodraeth

20 Ionawr 2023

Defra

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, datblygu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota arobryn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 asiantaeth a chyrrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn fwy glân, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr gwell i'r dyfodol.

Llywodraeth Cymru

Mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun, yn llunio polisiau a chyfreithiau dros ein gwlad. Rydyn ni'n gweithio i helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi.

Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys yr amgylchedd, amaethyddiaeth a materion gwledig. Rydym yn gwneud penderfyniadau ar faterion yn gysylltiedig a'r meysydd hyn, i Gymru gyfan, yn datblygu polisiau a'u gweithredu ac yn cynnig cyfreithiau i Gymru (biliau'r Senedd).

DAERA

Mae'r Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yn gyfrifol am fwyd, ffermio, yr amgylchedd, pysgodfeydd, coedwigaeth a chynaliadwyedd a datblygu'r sector gwledig yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Adran yn cynorthwyo datblygiad cynaliadwy sectorau bwyd-amaeth, amgylcheddol, pysgota a choedwigaeth economi Gogledd Iwerddon, gan roi sylw i anghenion y defnyddwyr, diogelu iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, lles anifeiliaid a chadwraeth a gwella'r amgylchedd.



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Y diweddaraſ am gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes	4
Deunyddiau sydd o fewn cwmpas y DRS	10
Cyfranogwyr a Llywodraethu'r Cynllun.....	13
Targedau	16
Llifoedd Arian.....	17
Manwerthwyr a mannau dychwelyd	20
Awdurdodau lleol, cynghorau lleol a gweithredwyr gwastraff.....	25
Monitro a gorfodi cydymffurfiaeth.....	26
Llinell amser gweithredu	28

Y diweddaraf am gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes

Cefndir

Mae llawer o wledydd wedi defnyddio cynlluniau dychwelyd ernes (DRS) yn llwyddiannus i gynyddu cyfraddau ailgylchu cynwysyddion diodydd, gyda chynlluniau sy'n gweithio'n dda yn cyrraedd targedau casglu o 90% neu uwch. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ymateb i'r ail ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2021 ar ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes, a'r camau nesaf ar gyfer cyflawni'r cynllun.

Ar ddechrau 2018, yng Nghynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd y Llywodraeth, ymrwymodd Defra i ddatblygu ac ymgynghori ar gynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd (DRS) ac, ar ddiwedd 2018, nodi ei amcanion ar gyfer DRS yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff. Ym maniffesto 2019, ymrwymodd Llywodraeth y DU i gyflwyno DRS yn Lloegr. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn cynnwys y prif bwerau sydd eu hangen i ddarparu DRS.

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti. Y nod yw bod deunyddiau a gaiff eu taflu yn cael eu hailgylchu a'u hailgylchredeg o fewn economi Cymru, gyda'r strategaeth yn nodi amcanion i fynd i'r afael â sbwriel a gwella ailgylchu a seilwaith, gyda'r ymrwymiad penodol o gyflwyno cynllun dychwelyd ernes fel cyfrwng allweddol o gyflawni hyn.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae DRS yn cefnogi cyrraedd targedau rheoleiddio ar gyfer y Pecyn Economi Gylchol¹ a'r cytundeb 'New Decade New Approach' o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a llygredd plastig. Mae hefyd yn cefnogi Strategaeth Twf Gwyrdd a Strategaeth Amgylcheddol Ddrafft yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd DRS yn gwneud cyfraniad pwysig o ran cynyddu'r cyflenwad o blastig o safon uchel sy'n addas i'w ailgylchu, felly mae'n ategu ac yn cefnogi amcanion y Dreth Pecynnau Plastig.

Mae dau ymgynghoriad wedi'u cynnal ar ddatblygu DRS. Archwiliodd y cyntaf, yn 2019, ddyluniad a chwmpas posibl model DRS. Ar 24 Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ail ymgynghoriad ar ddarparu DRS ar gyfer cynwysyddion diodydd untro. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 10 wythnos a daeth i ben ar 4 Mehefin 2021, gan dderbyn 2,590 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/nisr/2020/285/made/data.pdf>

Pam DRS?

Mae symud tuag at economi fwy cylchol yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth², gan ddiogelu adnoddau a'u cadw mewn defnydd cyhyd ag y bo modd a lleihau gwastraff. Mae cyflwyno DRS ar gyfer cynwysyddion diodydd untro yn rhan allweddol o gyflawni hyn, yn ogystal â chefnogi uchelgeisiau'r Llywodraeth o ran lleihau sbwriel a mynd i'r afael ag effeithiau llygredd plastig.

Mae'r cyfraddau ailgylchu presennol yn y DU ar gyfer cynwysyddion diodydd tua 70%, sy'n is na gwledydd eraill sydd â DRS ar waith. Mae hyn yn gadael tua 4 biliwn o boteli plastig a 2.7 biliwn o ganiau nad ydynt yn cael eu hailgylchu bob blwyddyn. Mae cynwysyddion diodydd yn mynd i safleoedd tirlenwi neu weithfeydd llosgi yn aml, gan ryddhau allyriadau nwyon tŷ gwydr llygredig iawn a chynyddu'r galw am ddeunyddiau crai, sydd hefyd yn cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chreu cynhyrchion newydd. Er bod modd ailgylchu poteli plastig a chaniau alwminiwm yn llawn, mae cyfraddau ailgylchu deunydd pacio diweddar yn dangos bod gwelliannau sylweddol i'w gwneud o ran ailgylchu cynwysyddion diodydd. Credwn y gallai DRS wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer cynwysyddion diodydd gyflawni cyfraddau ailgylchu o 90% neu uwch.

Bydd DRS yn creu ffrwd wastraff lanach ar wahân ar gyfer cynwysyddion diodydd a gwmpesir sy'n gwahanu cynwysyddion yn ôl deunydd yn y man dychwelyd. Bydd hyn yn lleihau lefel yr halogiad a faint o ailgylchu a wrthodir wedyn. Mae sicrhau deunydd o ansawdd uwch drwy'r cynllun yn golygu y bydd gan gynhyrchwyr y DU fynediad at gyflenwad cyson o ddeunydd wedi'i ailgylchu o safon uchel, gan greu dolen gaeedig a'u gwneud yn llai dibynnol ar ddeunydd a fewnforiwyd a deunydd crai.

Disgwylir i'r gwaith o weithredu DRS leihau'n sylweddol gyfanswm y cynwysyddion a gwmpesir a deflir yn ein strydoedd ac yng nghefn gwlad. Yn 2019, daeth adroddiad gan Keep Britain Tidy³ i'r casgliad fod poteli plastig bach a chaniau diodydd nad ydynt yn alcoholig yn cyfrif am 43% o'n holl sbwriel. Drwy'r cymhelliant ariannol a roddir i ddefnyddwyr dychwelyd cynwysyddion diodydd tafladwy, amcangyfrifwn y bydd 85% yn llai o gynwysyddion diodydd yn cael eu taflu fel sbwriel. Daeth yr un adroddiad i'r casgliad fod mwy na thair gwaith cymaint o eitemau sbwriel fesul safle, ar gyfartaledd, yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r 10% o ardaloedd mwyaf cefnog. At hynny, roedd yn amlwg bod ansawdd amgylcheddol cyffredinol safle yn gydgyssylltiedig â'i lefelau sbwriel – roedd gan safleoedd â lefelau uwch o graffiti, staenau a gosod posteri'n anghyfreithlon fwy o sbwriel hefyd. Felly, bydd mynd i'r afael â sbwriel yn cyfrannu at agenda Ffyniant Bro y Llywodraeth.

² Oni nodir yn wahanol, mae "Llywodraeth" yn cyfeirio at Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon. Pan ddefnyddir y term awdurdod lleol, bydd yn cyfeirio at gynghorau lleol pan gaiff ei ystyried mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

Beth yw barn y cyhoedd am DRS?

Roedd ymgynghoriad 2021 yn cydnabod yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig Covid-19 ac yn gofyn i ymatebwyr sut y gallai'r pandemig fod wedi dylanwadu ar eu barn ar DRS. Roedd yr awydd i gyflwyno DRS yn parhau'n gryf, gydag 83% o'r ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i gyflwyno cynllun. Cyfeiriwyd at yr effeithiau mae'r pandemig wedi'u cael ar yr amgylchedd, gan gynnwys creu mwy o wastraff a phobl yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored, a arweiniodd yn ei dro at lefelau uwch o daflu sbwriel, sy'n golygu bod yr angen am DRS hyd yn oed yn fwy. Roedd yr ymatebion yn nodi manteision ysgogiad economaidd drwy fuddsoddi a chreu swyddi o'r cynllun hefyd.

Crybwyllodd rhai ymatebwyr bryderon am y costau a'r amser gweithredu sydd eu hangen ar gyfer y cynllun ac awgrymwyd gohirio'r cynllun neu adolygu ei raglen weithredu mewn ymateb i Covid-19, gan fod llawer o fusnesau wrthi'n adfer o hyd.

Rydym wedi cynnal ymchwil⁴ yn uniongyrchol gyda defnyddwyr hefyd i ddeall eu barn ar DRS. Mae hyn wedi dangos cefnogaeth gref i weithredu DRS hefyd - gyda 74% o gyfranogwyr yr arolwg yn cefnogi DRS. Atgyfnerthwyd hyn gan ymchwil pellach⁵ a ganfu lefelau uchel o gefnogaeth i DRS mewn egwyddor hefyd. Rydym wedi nodi'r pwyntiau a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn ag anghydraddoldebau cymdeithasol yn cael eu dwysáu gan y pandemig ac rydym wedi ystyried sut i sicrhau bod y cynllun yn hwylus o hygyrch i ddefnyddwyr, a nodir hyn yn ddiweddarach yn yr ymateb hwn.

Costau byw

Mae'r Llywodraethau ym mhob gwlad yn ymwybodol iawn o'r cynnydd mewn costau byw sy'n cael eu teimlo ledled y wlad ar hyn o bryd. Bydd costau gweithredu'r DRS yn cael eu talu i raddau helaeth gan refeniw o werthu deunydd a gasglwyd a refeniw o ernesau heb ei hadbrynu. Rhagwelir mai ychydig iawn o gostau a gaiff eu trosglwyddo gan gynhyrchwyr cynwysyddion diodydd a gwmpesir gan y cynllun i ddefnyddwyr.

Dylai cyflwyno DRS ysgogi'r twf mewn swyddi gwyrdd yn yr economi. Dangosodd astudiaethau y gallai cyflwyno DRS gynyddu nifer y swyddi sydd ar gael rhwng 3,000 a 4,300⁶, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd megis logisteg casglu/cludo, gweithrediadau manwerthu ac o fewn y Sefydliad Rheoli Ernes⁷. Mae'r Llywodraeth yn

⁴ Defra: Consumer research to inform the design of an effective deposit return scheme, Awst 2019.

<https://sciencesearch.defra.gov.uk/ProjectDetails?ProjectId=20253>

⁵ Defra: Quantifying and exploring the potential impact of a future deposit return scheme, 2021.

<http://sciencesearch.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&ProjectID=20660&FromSearch=Y&Publisher=1&SearchText=deposit%20return%20scheme%20&SortString=ProjectCode&SortOrder=Asc&Paging=10#TimeScaleAndCost>

⁶ https://www.cpre.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/from_waste_to_work.pdf

⁷ Bydd y DMO yn sefydliad annibynnol, dan arweiniad y diwydiant a sefydlwyd i redeg y DRS. Am fwy o wybodaeth, gweler y bennod Cyfranogwyr a Llywodraethiant y Cynllun.

awyddus i annog cyfleoedd cyflogaeth drwy bolisiau fel hyn, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd heriol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

Rydym yn cydnabod bod cyflwyno DRS yn ymgymeriad newydd i'r diwydiant, a chydâ'r pwysau parhaus sy'n wynebu defnyddwyr a busnesau bob dydd, ni ddylid diystyru effaith y newid. Ar y sail hon, rydym wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu a chydweithio â'r diwydiant i ddarparu cynllun cost-effeithiol sy'n gweithio'n dda. Rydym yn ymrwymo hefyd i barhau i gadw golwg ar yr effaith ar fusnesau bach ac ystyried mesurau lliniaru eraill neu gefnogaeth y gallai fod eu hangen arnynt wrth i ni fynd ati i'w roi ar waith. Mae hyn yn cynnwys gweithio drwy atebion posibl i leihau costau a risgiau busnes a defnyddio gwersi cynlluniau tramor.

Cwmpas daearyddol

Gan fod rheoli gwastraff yn faes polisi datganoledig, cyfrifoldeb pob gwlad yn y DU yw penderfynu ar y dull o weithredu DRS sy'n cyd-fynd â'u hanghenion polisi. Mae Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon wedi cydweithio ar yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd ar draws y tair gwlad i ddarparu DRS. Yn yr ymateb hwn, pan gyfeiriwn at 'y DRS', rydym yn golygu'r cynlluniau DRS sydd i'w sefydlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r Alban yn symud ymlaen gyda'i darpariaeth DRS ei hun. Byddwn yn parhau i weithio ar draws y pedair gwlad ar sut mae'r cynlluniau'n rhyngweithio.

Y camau nesaf

Bydd y DRS yn gynllun a arweinir gan y diwydiant. Mae profiad rhyngwladol o weithredu DRS wedi dangos y gall cynlluniau weithio orau lle maent yn cael eu harwain gan y diwydiant a lle mae'r diwydiant yn gallu defnyddio ei arbenigedd a'i ddiddordeb ei hun mewn cael cynllun llwyddiannus i weithredu'r DRS ei hun. Credwn fod hwn yn ddull synhwyrol â phrawf o lwyddiant y dylid ei efelychu yn y DRS yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod angen gweithio'n glos gyda rhanddeiliaid ac rydym am roi'r cynllun DRS ar waith mewn camau. Y cam nesaf fydd datblygu'r ddeddfwriaeth, gan wneud yr hyn sydd ei angen i sicrhau ei fod yn gweithio'n ymarferol, a phenodi y sefydliad rheoli ernes. Bydd camau eraill yn cynnwys sefydlu DMO a rhoi'r cynllun ar waith trwy'r diwydiant.

Ymgysylltu â'r diwydiant

Bydd DRS yn effeithio'n uniongyrchol ar amryw o randdeiliaid, yn enwedig cynhyrchwyr a mewnforyr diodydd, manwerthwyr, cyfanwerthwyr a phartneriaid dosbarthu, a chwmnïau casglu gwastraff a logisteg. Mae gan y rhanddeiliaid hyn yr wybodaeth a'r arbenigedd i asesu sut y bydd y DRS yn effeithio ar eu gweithrediadau busnes wrth symud ymlaen.

Er bod cynlluniau DRS yn gweithredu'n effeithiol ledled y byd, mae nodweddion penodol yn y ffordd y bydd y cynlluniau yn y DU yn gweithredu y mae angen i ni weithio drwyddynt gyda rhanddeiliaid.

Rydym o'r farn bod y canlynol yn flaenoriaethau allweddol wrth i ni ddatblygu fersiwn derfynol o'r rheoliadau DRS a phenodi'r DMO:

- profion sut y gall manwerthwyr ar-lein gynnig gwasanaeth cymryd yn ôl
- cadarnhau'r trefniadau TAW ar gyfer yr ernes ar gynwysyddion a gwmpesir
- sefydlu'r terfyn uchaf ar gyfer lefel yr ernes
- parhau i adolygu effaith y DRS ar fusnesau bach, gan gynnwys cynhyrchwyr, ac ystyried mesurau lliniaru a chefnogaeth y gallai fod eu hangen arnynt
- ymchwilio ymhellach i effeithiau cynlluniau DRS gwahanol yn y DU, gan gynnwys effeithiau rheoliadau ar wahân yn Lloegr/Gogledd Iwerddon a rheoliadau yng Nghymru
- monitro a gorfodi cydymffurfiaeth, gan gynnwys cynllun codi tâl ar gyfer y rheoleiddwyr

Rydym yn bwriadu dechrau ymgysylltu ymhellach â'r diwydiant cyn bo hir a byddwn yn archwilio'r meysydd hyn ymhellach fel ffordd o sicrhau bod cynllun y DRS yn gadarn ac yn gyflawnadwy.

Rheoliadau DRS

Bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio pwerau yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn cael eu defnyddio i sefydlu'r DRSs yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nod y Llywodraeth yw cyflwyno is-ddeddfwriaeth yn Senedd San Steffan (a'r Senedd yng Nghymru) a fydd yn pennu'r fframwaith ar gyfer y cynlluniau, a'r rhwymedigaethau o dan y cynlluniau hynny. Rydym wrthi'n drafftio rheoliadau ar gyfer y cynlluniau i'w cyflwyno yn Senedd San Steffan/y Senedd. Bydd y rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r canlyniadau polisi a nodir yn yr ymateb hwn a'r ymgysylltu pellach â'r diwydiant sydd ar y gweill ar gyfer y cam cyflawni nesaf. Byddant yn gweithredu fel y cyfrwng deddfwriaethol ar gyfer dod â'r cynlluniau i fodolaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno ei rheoliadau ei hun i sefydlu'r DRS yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd angen i rai gwahaniaethau cyfreithiol a masnachol gael eu hadlewyrchu yng ngweithrediad y cynllun a'r DMO(s) yng Nghymru, gan gynnwys y broses o benodi DMO(s), rheoli cyfrifon ariannol a gofynion adrodd ar wahân fesul gwlad. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ein bod yn deall effaith y dull hwn ar gyfranogwyr y cynllun a gweithrediad y DRS ledled y DU a Gweriniaeth Iwerddon.

Rydym yn anelu at fod mewn sefyllfa i benodi'r DMO(s) cyn gynted ag y bo'n ddichonadwy ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym, yn dilyn proses deg ac agored. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â darpar gonsortia sydd â diddordeb mewn bod yn DMO yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymateb.

Bydd y penderfyniadau a nodir yn y penodau canlynol yn sail i'r polisi ar y DRS a chânt eu nodi yn y deddfwriaeth sydd i ddod. Fel sy'n arfer safonol gydag unrhyw fesur polisi ac

offeryn statudol newydd, bydd y Llywodraeth yn adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r DRS yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y rheoliadau'n bodloni amcanion y polisi.

Hoffai Llywodraeth y DU ar ran Lloegr, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriadau ar gyflwyno DRS, yn ogystal ag unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd wedi cymryd rhan yn ymgysylltiad ehangach y Llywodraeth ynghylch datblygu polisi'r DRS. Mae hon yn garreg filltir bwysig yn y daith tuag at gyflawni amcanion allweddol y Llywodraeth o symud tuag at economi fwy cynaliadwy a chylchol.

Deunyddiau sydd o fewn cwmpas y DRS

Cyhoeddiadau allweddol

- Maint cynwysyddion sydd o fewn cwmpas DRS: Popeth (50ml – 3l) ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
- Deunyddiau o fewn cwmpas DRS - Lloegr a Gogledd Iwerddon: Poteli polyethylen tereffthalad (PET); caniau dur ac alwminiwm.
- Deunyddiau sydd o fewn cwmpas DRS - Cymru: Poteli polyethylen tereffthalad (PET); caniau dur ac alwminiwm; a photeli gwydr.

Gan fod rheoli gwastraff yn faes polisi datganoledig, cyfrifoldeb pob gwlad yn y DU yw penderfynu ar gwmpas ei DRS ei hun mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'i anghenion polisi.

Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio ar 26 Mawrth 2022⁸. Cyhoeddwyd manylion am faint a deunyddiau cynwysyddion o fewn cwmpas y DRS fel rhan o'r ymateb hwn. Rydym wedi nodi'r casgliadau hyn yn y bennod hon hefyd er mwyn bod yn gyflawn.

Maint y cynhwysydd

O ran maint y cynwysyddion a gwmpesir gan y cynllun, bu Llywodraeth y DU a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon yn ymgynghori ar gynllun sy'n cynnwys popeth (gan gynnwys cynwysyddion diodydd hyd at 3l o ran maint) neu gynllun wrth fynd (cynwysyddion diodydd o dan 750ml o ran maint ac eithrio'r cynwysyddion hynny a werthir mewn aml-becynnau). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid DRS sy'n cynnwys popeth, gyda llawer o ymatebwyr yn cyfeirio at y canlyniadau amgylcheddol gwell a rhwyddineb dealltwriaeth i ddefnyddwyr. Mae Defra, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon wedi penderfynu gweithredu DRS sy'n cynnwys popeth mewn perthynas â maint y cynwysyddion a gwmpesir. Felly, bydd cynwysyddion diodydd untro sy'n cynnwys o leiaf 50ml a hyd at 3l o hylif yn rhan o'r DRS ar draws y tair gwlad. Bydd hyn yn cynnwys cynwysyddion sy'n cael eu gwerthu'n unigol ac fel rhan o amlbecyn.

Deunyddiau

O ran y mathau o ddeunyddiau sydd i'w cynnwys yn y DRS, cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai'r cynllun yn cynnwys poteli polyethylen tereffthalad (PET), caniau dur ac alwminiwm, a photeli gwydr.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn gymysg o safbwynt cynnwys gwydr. Nododd rhai o'r ymatebwyr fanteision cynnwys gwydr, megis y ffaith y byddai'n taclo un o brif ffynonellau sbwriel, yn darparu adnodd ailgylchu pwysig, gan gwmpasu cymaint o amrywiaeth o ddeunyddiau â phosibl, ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o gynlluniau DRS dramor yn cynnwys rhai diodydd mewn poteli

⁸ <https://www.gov.uk/government/consultations/packaging-and-packaging-waste-introducing-extended-producer-responsibility>

gwydr. Dywedodd rhai rhanddeiliaid hefyd y byddai cynnwys gwydr yn lleihau'r posibilrwydd y byddai cynhyrchwyr yn newid eu deunydd pacio.

Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch gwydr ymhlith yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn gynnwys y cynnydd mewn costau trin a chymhlethdod cyfarpar. Bydd angen gwagio Peiriannau Gwerthu Gwrthdro (RVMs) yn amlach a bydd risgiau diogelwch ychwanegol yn gysylltiedig â thrin gwydr sydd wedi torri mewn amgylcheddau manwerthu. Ar gyfer manwerthwyr sy'n cynnig gwasanaeth derbyn yn ôl â llaw, bydd angen mwy o le i storio poteli gwydr yn ddiogel a allai effeithio'n anghymesur ar fanwerthwyr bach. Yn ogystal, codwyd pwyntiau ynghylch pwysau gwydr a'r posibilrwydd y gallai dorri, gan beri mwy o anghyfleustra i ddefnyddwyr.

Ar ôl pwyso a mesur y pwyntiau hyn yn dilyn yr ymgynghoriad, y deunyddiau a gaiff eu cynnwys yn y DRS yn Lloegr a Gogledd Iwerddon fydd cynwysyddion diodydd a wneir o blastig PET, dur ac alwminiwm. Ni fydd y DRS yn cynnwys poteli gwydr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon oherwydd bod y llywodraethau perthnasol o'r farn y bydd ychwanegu gwydr yn ei gwneud yn fwy cymhleth ac yn fwy heriol cyflawni'r DRS, yn enwedig ar gyfer y sector lletygarwch a'r sector manwerthu, ac yn peri mwy o anghyfleustra i ddefnyddwyr. O ystyried y pryderon a godwyd ynghylch rheoli gwydr mewn DRS, bydd y cynllun a gyflawnir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn canolbwyntio ar boteli plastig a chaniau alwminiwm/dur.

Er nad ydynt o fewn cwmpas y DRS yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, bydd poteli diodydd gwydr yn rhan o gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am deunydd pacio yn y ddwy wlad, a fydd yn gosod targedau ar gynhyrchwyr mewn perthynas ag ailgylchu gwydr. Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i adolygu cynnwys gwydr pan fydd y DRS yn gwbl weithredol i sicrhau bod cynwysyddion diodydd gwydr yn cyrraedd y targedau ailgylchu perthnasol. Mae Lloegr a Gogledd Iwerddon yn falch o barhau i ymgysylltu â'r sector gwydr ynglŷn â sut y gellir gwella cyfraddau ailgylchu gwydr drwy gasgliadau wrth ymyl y ffordd.

Wrth asesu'r gwahanol ddeunyddiau sydd i'w cynnwys, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effaith DRS yn erbyn y gyfradd ailgylchu sylfaenol yng Nghymru, a meini prawf statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd â'r ymrwymadau cyffredinol i ddod yn wlad ddi-garbon a diwastraff net erbyn 2050. O gydnabod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn eirioli dros gynnwys amrywiaeth mor eang â phosibl o ddeunyddiau a hefyd ddatblygiadau mewn atebion technoleg DRS digidol a allai ganiatáu dychwelyd ernes potel drwy'r seilwaith casglu presennol wrth ymyl y ffordd a, thrwy hynny, leihau'r ddibyniaeth ar ddychwelyd i beiriannau gwerthu gwrthdro manwerthwyr, ac yn erbyn cyfradd ailgylchu sylfaenol uwch, mae cynnwys gwydr yn darparu cyfradd enillion well yn gyffredinol o'r asesiad o effaith economaidd y cynllun yng Nghymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a argymhellir, fel y nodir yn yr ymgynghoriad, i gyflwyno DRS sy'n cynnwys popeth yng Nghymru sy'n cynnwys plastig PET, caniau dur ac alwminiwm, a photeli gwydr.

Er gwybodaeth, y deunyddiau o fewn cwmpas y DRS yn yr Alban yw plastig PET, caniau dur ac alwminiwm, a photeli gwydr.

Yn olaf, archwiliodd yr ymgynghoriad gynnwys y cap fel rhan o'r cynhwysydd diodydd a gwmpesir. Wrth ddychwelyd cynwysyddion i fan dychwelyd, bydd yn ofynnol i ddefnyddwyr ar draws y tair gwlad gadw cynwysyddion yn gyfan. Fodd bynnag, ni fydd adbrynu'r ernes

yn dibynnu ar ddychwelyd y cap gyda'r cynhwysydd. Mae capiau/caeadau yn fwy tebygol o gael eu tynnu neu eu colli. Felly, gallai rhwymedigaeth i ddychwelyd y botel gyda'r cap arwain at ddychwelyd llai o ddeunydd a gwmpesir lle mae'r cap wedi'i golli. Yn hytrach, bydd defnyddwyr yn cael eu hannog i ddychwelyd y cynhwysydd gyda'r cap/caead ynghlwm. Bydd hyn yn cynyddu cyfraddau ailgylchu'r deunyddiau a ddefnyddir yn y capiau ac yn lleihau sbwriel.

Gallu cynlluniau DRS i ryngweithredu ar draws y gwledydd

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr heriau mae'r gwahaniaethau rhwng cwrpas cynlluniau DRS yn y DU yn eu cyflwyno i'r gadwyn gyflenwi. Rydym wedi ymrwmo i barhau i ymgysylltu â'r diwydiant wrth iddo ddatblygu atebion i sicrhau y gellir sefydlu DRSs effeithiol ac ymarferol ar draws y gwledydd. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, o ran plastig PET a chaniau alwminiwm/dur, bydd defnyddwyr yn gallu cael eu hernes yn ôl yn unrhyw un o'r gwledydd hyn. Gan mai dim ond y cynllun Cymreig sy'n cynnwys gwydr, dim ond yng Nghymru y bydd modd ei ddychwelyd. Byddem yn annog bod y DMO yn gweithio gyda chynllun yr Alban i ystyried trefniadau rhyngweithredu a dwyochrol ar gyfer dychwelyd gwydr rhwng eu cynlluniau.

Labelu

Archwiliodd yr ymgynghoriad y cyfraniad y gallai labelu cynwysyddion a gwmpesir yn glir ei wneud i lwyddiant y cynllun, o safbwynt dealltwriaeth defnyddwyr, a hefyd i sicrhau bod y cynllun yn gweithredu'n effeithiol o ran sganio cynwysyddion ac adbrynu ernesau.

Gallai labelu gynnwys:

- a) marc i ddangos bod y cynnyrch yn rhan o DRS;
- b) marciwr adnabod y gellir ei ddarllen gan fan dychwelyd sy'n rhan o'r cynllun.

Gwelodd yr ymgynghoriad gefnogaeth ysgubol i gyflwyno rhyw fath o labelu gorfodol (95%). Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod a yw cynhwysydd diodydd wedi bod yn destun ernes ai peidio, a gallai logo DRS (neu debyg) ar y cynhwysydd helpu i gefnogi hynny. Gwyddom hefyd y byddai angen nod adnabod fel cod bar ar gynnwysyddion er mwyn i fannau dychwelyd allu eu darllen a dychwelyd ernes.

Mae Defra, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon yn bwriadu ei gwneud yn orfodol defnyddio marc i adnabod y cynnyrch fel rhan o DRS a hefyd defnyddio nod adnabod fel cod bar neu god QR er mwyn i'r man dychwelyd allu adnabod y cynhwysydd. Mater i'r DMO fydd penderfynu ar union fanylion a dyluniad y marciau hyn.

Cyfranogwyr a Llywodraethu'r Cynllun

Cyhoeddiadau allweddol

- Penodir Sefydliad Rheoli'r Ernes drwy broses ymgeisio a nodir yn y rheoliadau

Cyfranogwyr y cynllun

Mae DRS llwyddiannus yn dibynnu ar amrywiaeth o gyfranogwyr yn cyflawni eu rhwymedigaethau unigol o dan y cynllun. Mae gan gynhyrchwyr, manwerthwyr a'r Sefydliad Rheoli Ernes (DMO - sefydliad sydd i'w benodi i gynnal y DRS) gyfraniad i'w wneud. Bydd Rheoliadau'r DRS yn nodi'r rhwymedigaethau sydd i'w rhoi ar gyfranogwyr y cynllun.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, wrth sôn am gynhyrchwyr, rydym yn golygu perchnogion brandiau neu weithgynhyrchwyr diodydd mewn cynwysyddion a gwmpesir sydd wedyn yn cael eu gwerthu yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, ac mae'n cynnwys y bobl hynny sy'n mewnfario cynwysyddion diodydd i'w rhoi ar y farchnad. Ni ystyrir bod manwerthwyr yn gynhyrchwyr oni bai eu bod yn gwerthu diodydd eu brand eu hunain yn y wlad berthnasol. Nid yw'r rhai sy'n cynhyrchu cynwysyddion ffisegol wedi'u cynnwys chwaith. I gynhyrchwyr, mae rhwymedigaethau'n cynnwys rhoi'r ernes ar y cynhwysydd pan gaiff ei werthu a thalu ffi cofrestru cynhyrchwyr i'r DMO i ariannu costau sefydlu a gweithredol parhaus y DRS (ceir rhagor o wybodaeth am ffioedd cofrestru cynhyrchwyr yn y bennod ar Lifoedd Arian). Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr gofrestru gyda'r DMO ac adrodd data iddo.

Manwerthwr yw'r sawl sy'n gwerthu cynhwysydd a gwmpesir yn uniongyrchol i ddefnyddiwr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd yn ofynnol iddynt ychwanegu gwerth yr ernes at y pris prynu a sicrhau bod gwybodaeth brisio'n dangos pris y cynhwysydd a gwmpesir a'r ernes sydd ynghlwm. Bydd yn ofynnol hefyd i'r manwerthwr weithredu man dychwelyd ar gyfer y cynllun (gydag eithriadau cyfyngedig). Mae mwy o wybodaeth am rwymedigaethau manwerthwyr yn yr adran Manwerthwyr a manau dychwelyd.

Llywodraethu'r cynllun

Bydd y DMO(s) yn gyfrifol am reoli gweithrediad cyffredinol y DRS, yn ogystal â bodloni'r targedau casglu a nodir mewn rheoliadau, y bydd y DMO(s) yn eu cyflawni ar ran yr holl gynhyrchwyr cofrestredig. Bydd y DMO(s) yn sefydliad(au) annibynnol, dielw a phreifat. Bydd y term 'DMO' isod yn cwmpasu un corff neu sawl corff os penodir mwy nag un. Os penodir mwy nag un, bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydgysylltu eu dull gweithredu, lle bo'n briodol, megis wrth bennu lefel yr ernes.

Yn dilyn adolygiad ar opsiynau ar gyfer penodi'r DMO(s), mae Defra, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon wedi penderfynu penodi'r DMO drwy broses ymgeisio a nodir mewn rheoliadau yn hytrach

na thrwy broses dendro gystadleuol, a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd y dull hwn yn lleihau costau'r Llywodraeth drwy beidio â gwneud prosesau tendro cystadleuol rheolaidd yn ofynnol ac yn rhoi mwy o sicrwydd hirdymor i'r DMO(s) (yn amodol ar adolygiadau perfformiad y Llywodraeth). Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cwestiwn o hyd arfaethedig contract y DMO wedi'u rhannu ar draws y cyfnodau amser a gynigiwyd, roedd hirhoedledd yn cael ei ffafrio, gyda 70% o'r ymatebion yn ffafrio 5 mlynedd neu fwy. O dan y dull hwn, bydd atebolrwydd drwy'r rheoliadau, a fydd yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar y DMO, a thrwy amodau eu penodi.

Gan y bydd rheoliadau ar wahân ar gyfer y cynllun yn Lloegr/Gogledd Iwerddon ac yng Nghymru, bydd yn ofynnol i ymgeisydd DMO wneud cais i Lywodraeth y DU i weithredu'r cynllun yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a gwneud cais i Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun yng Nghymru. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y broses ymgeisio mor gydgysylltiedig â phosibl er mwyn lleihau unrhyw weinyddu ychwanegol y gallai hyn ofyn amdano gan ymgeisydd.

Yn ehangach, mae bodolaeth rheoliadau ar wahân yn golygu y bydd angen i'r DMO adlewyrchu rhai gwahaniaethau cyfreithiol a masnachol yng ngweithrediad y cynllun; rydym yn edrych ar yr hyn a allai fod yn ofynnol gan bob parti i hwyluso hyn. Mae Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon yn gweithio hefyd i ddeall unrhyw effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol y gallai hyn eu cael ar y diwydiant yn ymarferol, yn ogystal â gweithio i sicrhau'r aliniad mwyaf posibl fel y bydd defnyddwyr a chyfranogwyr gorfodol o'r diwydiant yn profi'r DRS fel un cynllun, cyn belled ag y bo modd.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, bydd y cynllun yn cael ei arwain gan y diwydiant ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan ffioedd cofrestru cynhyrchwyr. Bydd angen i arweinwyr y DMO fod yn gynrychiadol o randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud yn weithredol â'r DRS, ac mae'n debygol o gynnwys cwmnïau unigol neu gymdeithasau masnach sy'n cynrychioli cynhyrchwyr diodydd, manwerthwyr, mewnforwyr a/neu logisteg. Dylai unrhyw ymgeisydd i ddod yn DMO allu dangos cefnogaeth gref gan y cynhyrchwyr a'r manwerthwyr sydd â chyfrifoldebau o dan y cynllun neu gymdeithasau masnach sy'n cynrychioli sefydliadau o'r fath o dan y cynllun. Roedd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi'r angen i sicrhau bod buddiannau cynhyrchwyr bach, manwerthwyr bach ac awdurdodau lleol yn cael eu cynrychioli hefyd wrth gyflawni a rheoli'r cynllun yn barhaus. Bydd yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd ddangos sut y byddai'n diogelu buddiannau cynhyrchwyr llai o faint a sicrhau bod ganddynt ddylanwad cymesur yn y DMO.

Bydd y DMO(s) yn cael ei ddwyn i gyfrif gan y rhwymedigaethau a roddir arno drwy'r rheoliadau ac yn amodau ei benodi. Wrth wneud y cais i fod yn DMO, bydd angen i'r ymgeisydd nodi manylion sut y mae'n bwriadu cyflawni'r rhwymedigaethau yn y rheoliadau. Byddem yn disgwyl i'r cais DMO gwmpasu llawer o'r ystyriaethau arfaethedig a restrir yn yr ymgynghoriad (cwestiynau 26 a 27⁹). Roedd dros 90% o'r ymatebion i'r

⁹ https://consult.defra.gov.uk/environment/consultation-on-introducing-a-drs/supporting_documents/DRS%20Consultation%20FINAL%20.pdf

cwestiynau hyn yn cytuno â'r ystyriaethau hyn. Dylai'r DMO fod yn agored wrth ei waith a bydd yn ofynnol iddo adrodd bob blwyddyn ar ei waith o gyflawni'r cynllun fesul gwlad, gan gynnwys cynnydd yn erbyn ei rwymedigaethau statudol amrywiol ac amcanion polisi ehangach y DRS, yn ogystal â throsolwg o berfformiad ariannol y cynllun. Ategir hyn gan adolygiadau perfformiad rheolaidd. Bydd gan y gweinidogion perthnasol (h.y. yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar y naill law, ac yng Nghymru ar y llaw arall) yr hawl i dynnu cymeradwyaeth DMO yn ôl os ystyrir nad yw'n cyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau statudol.

Targedau

Cyhoeddiadau allweddol

- Targed casglu yn y rheoliadau o 90% i'w gyflawni o fewn tair blynedd i weithredu'r cynllun.

Bydd y Llywodraeth yn gosod targed casglu o 90% yn y rheoliadau, i'w gyflawni o fewn tair blynedd i flwyddyn adrodd gyntaf y cynllun, a phob blwyddyn wedi hynny (gyda'r opsiwn o gynyddu'r targed hwn os bernir bod hynny'n briodol fel rhan o'r adolygiadau rheolaidd o'r polisi a grybwyllwyd eisoes). Bydd y targed casglu'n cael ei gyflwyno'n raddol ar 70% ym mlwyddyn 1, 80% ym mlwyddyn 2 a 90% o flwyddyn 3 ymlaen. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi dull cadarn o gyflawni targedau casglu uchel yn y cynllun.

Ar ôl ystyried ymhellach, rydym wedi penderfynu gosod targedau casglu ar gynhyrchwyr. Caiff y rhwymedigaeth hon ei throsglwyddo i'r DMO pan fydd y cynhyrchydd yn cofrestru gyda'r DMO, yna bydd y DMO yn cyflawni'r rhwymedigaeth ar ran y cynhyrchydd. Bydd yn ddyletswydd ar gynhyrchwyr i gofrestru gyda DMO pan benodir un a rhoi unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani i'r DMO.

Bydd y cyfnod adrodd ar gyfer targedau casglu'n seiliedig ar flwyddyn galendr, gan ddechrau ar 1 Ionawr a dod i ben ar 31 Rhagfyr. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd pob deunydd a gwmpesir yn cyflawni cyfradd gasglu o 85% o leiaf er mwyn osgoi un deunydd yn sybsideiddio targed casglu 90% deunyddiau eraill. Bydd cosbau ariannol yn cael eu gosod ar y DMO gan y rheoleiddwyr¹⁰ lle mae'r DMO yn methu â chyflawni ei dargedau casglu.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, ni fyddwn yn gosod targed ailgylchu ar gyfer deunydd ar y DMO yn ogystal â thargedau casglu, oherwydd yr anawsterau a gai'r DMO wrth sicrhau bod y deunydd yn cael ei ailgylchu ar ôl ei werthu i ailbroesydd. Yn hytrach, byddwn yn nodi yn y rheoliadau bod rhaid i'r DMO sicrhau bod deunydd a gesglir drwy'r cynllun yn cael ei drosglwyddo i ailbroesydd i'w ailgylchu a'i fod yn gallu dangos tystiolaeth o hyn ar gais gan y rheoleiddiwr.

Bydd yn ofynnol cyrraedd targedau casglu ar wahân yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Er mwyn gallu adrodd yn benodol ar gynwysyddion diodydd a gwmpesir a gesglir i'w gwahanu fesul gwlad, buom yn archwilio yn yr ymgynghoriad pwy ddylai fod yn gyfrifol am adrodd ar gynwysyddion a roddir ar y farchnad; ai'r cynhyrchydd, y manwerthwr, neu'r ddau. Roedd yr ymatebion yn dangos y byddai rhwymedigaeth ar fanwerthwyr i adrodd ar nifer y cynwysyddion y maent yn eu gwerthu i ddefnyddwyr yn faich anghymesur ac y byddai cynhyrchwyr yn gallu darparu'r data perthnasol. Ein bwriad felly yw y bydd rheoliadau'n gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr i adrodd i'r DMO, fesul gwlad, ar nifer y cynwysyddion diodydd y maent yn eu gwerthu. Byddwn yn parhau i ymchwilio i ymarferoldeb gosod y gofyn hwn ar gynhyrchwyr yn y cam ymgysylltu nesaf.

¹⁰ Gweler y bennod am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth am ragor o wybodaeth am reoleiddwyr y cynllun.

Llifoedd Arian

Cyhoeddiadau allweddol

- Wrth bennu ffioedd cofrestru cynhyrchwyr, rhaid i'r DMO ymgynghori â chynhyrchwyr a rhoi ystyriaeth i faint y cynhyrchydd, yn seiliedig yn rhannol ar nifer y cynwysyddion diodydd mae cynhyrchwyr yn eu rhoi ar y farchnad.
- Dylai pob ernes heb ei hadbrynu ariannu'r cynllun yn rhannol i ba bynnag raddau y maent yn aros yn y system.
- Bydd y DMO yn gyfrifol am bennu lefel yr ernes (sefydlog neu amrywiol), gan gadw at bamedrau a nodir yn y rheoliadau, gan gynnwys uchafswm.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, bydd y DRS yn cael ei ariannu gan gyfuniad o refeniw o'r deunydd y mae'n ei gasglu a'i werthu i ailbroseswyr, ffioedd cofrestru cynhyrchwyr ac ernesau heb eu hadbrynu. Bydd angen i'r DMO geisio cael cyllid preifat i ariannu costau cychwyn, gweithredu a gweithredol y cynllun o'r diwrnod cyntaf. Bydd y rheoliadau'n gosod rhwymedigaethau ar y DMO, gan gynnwys y rhwymedigaeth i gyrraedd targedau casglu cynwysyddion diodydd a gwmpesir ar ran yr holl gynhyrchwyr y mae'n rhaid iddynt gofrestru gyda'r DMO. Felly, mae sicrhau bod gan y DMO y gallu i ddylanwadu ar gyflawni a pherfformiad y cynllun wrth gyflawni'r rhwymedigaethau hyn yn hanfodol, ac adlewyrchir hyn yn ein dulliau gweithredu drwy roi perchnogaeth i'r DMO dros bethau fel pennu lefel yr ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a gwmpesir.

Bydd gofyn i bob cynhyrchydd cynwysyddion diodydd a gwmpesir gofrestru gyda'r DMO pan gaiff ei benodi cyn y caiff roi'r cynhyrchion hynny ar y farchnad. Mae'r Llywodraeth yn parhau i ystyried y dull gorau o ddatblygu'r seilwaith digidol sydd ei angen i gofrestru a derbyn tystiolaeth ar gynwysyddion a roddir ar y farchnad. Roedd tri chwarter yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ffafrio rhoi'r rôl hon yn nwylo'r Llywodraeth. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda'r consortia sy'n ymwneud â sefydlu'r DMO i gefnogi'r gwaith o ddarparu system TG ar gyfer cofrestru cynhyrchwyr cyn i'r cynllun fynd yn fwy, gan gydnabod yr angen i'r DMO fewnbynnu llawer o'r manylion am y system yn seiliedig ar ei swyddogaethau gweithredol bwriedig.

Ffioedd cofrestru cynhyrchwyr

Bydd y DMO yn gallu codi ffi gofrestru ar gynhyrchwyr i dalu costau'r DMO yn arfer ei swyddogaethau o dan y cynllun, os oes angen i gwmpasu unrhyw gostau na ellir eu talu gan yr incwm arall mae'r DMO yn ei gael o werthiannau deunydd ac ernesau heb eu hadbrynu. O gofio mai corff di-elw fydd y DMO, ni ddylai'r ffi fod yn fwy na'r swm sydd ei angen i adennill costau'r cynllun. Dylai cynhyrchwyr dalu ffioedd sy'n gymesur â'r mathau a'r meintiau o ddeunyddiau a nifer y cynwysyddion a gwmpesir y maent yn eu rhoi ar y farchnad i adlewyrchu'r gwahanol gostau sy'n gysylltiedig â chasglu, gwahanu a thrin gwahanol fathau o ddeunyddiau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffi cofrestru cynhyrchwyr a bennir gan y DMO.

Rydym yn bwrw ymlaen â hyn ar y dybiaeth y bydd yn rhaid i bob cynhyrchydd cynwysyddion diodydd a gwmpesir optio i mewn i'r DRS a chofrestru gyda'r DMO. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod baich cost posibl y cynllun y gallai cynhyrchwyr diodydd llai ei deimlo fwyaf. Er y bydd rhaid i bob cynhyrchydd gydymffurfio â rhwymedigaethau cynhyrchwyr a bennir gan y rheoliadau, rydym wedi ceisio lleihau'r baich ar y cynhyrchwyr diodydd lleiaf mewn perthynas â ffioedd cofrestru cynhyrchwyr. Bydd y rheoliadau'n nodi meini prawf y mae'n rhaid i'r DMO eu hystyried wrth bennu ffioedd cofrestru cynhyrchwyr. Bydd hyn yn cynnwys 'maint y cynhyrchydd', gyda rhywfaint o ystyriaeth o faint yn cael ei

asesu ar sail y 'cynwysyddion diodydd a roddir ar y farchnad.' Bydd y rheoliadau'n rhoi hyblygrwydd i'r DMO ystyried ffactorau eraill hefyd megis trothwy sy'n seiliedig ar drosiant trethadwy cynhyrchydd. Rydym yn ymwybodol o'r problemau ar draws y sector sy'n wynebu cynhyrchwyr bach a byddwn yn parhau i gadw golwg ar yr effaith ar fusnesau bach a sut orau y gall y llywodraeth eu helpu wrth i ni nesáu at ddiwrnod ei weithredu.

Ffactorau eraill y bydd rhaid i'r DMO eu hystyried wrth bennu'r ffioedd cofrestru cynhyrchwyr fydd costau'r DMO wrth weinyddu'r cynllun ar ran cynhyrchydd cofrestredig (gan adlewyrchu 'cynwysyddion diodydd a roddir ar y farchnad') a chostau cydymffurfio, monitro a gorfodi a wneir gan y rheoleiddwyr. Dylai'r DMO fod yn dryloyw gyda'i aelodau wrth wneud penderfyniadau am ffioedd.

Proses o bennu ffioedd cofrestru

Bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r DMO ymgynghori ar sut y mae'n bwriadu pennu ffioedd cofrestru, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y bydd yn ystyried maint y cynhyrchydd i leihau effaith cost gymharol y cynllun ar gynhyrchwyr llai. Bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r DMO gyhoeddi ei fframwaith ar gyfer cyfrifo ffioedd cofrestru cynhyrchwyr a thrwy hynny sicrhau bod ffioedd yn cael eu cyfrifo'n dryloyw ac yn briodol.

Bydd rhan o'r broses ymgeisio i benodi'r DMO yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd egluro sut y mae'n cynnig bod barn cynhyrchwyr bach yn cael ei chynrychioli wrth reoli'r sefydliad a'r prosesau mewnol y bydd yn eu dilyn wrth bennu ffioedd cynhyrchwyr.

Bydd adolygiadau rheolaidd o'r DRS yn rhoi'r cyfle i'r Llywodraeth fonitro a gwerthuso sut mae'r cynllun yn perfformio ac yn arbennig sut mae cynhyrchwyr llai yn ymgysylltu â'r cynllun.

Ernesau heb eu hadbrynu

Er ein bod am i'r DRS gyflawni cyfradd gasglu uchelgeisiol ar gyfer cynwysyddion diodydd, fel y nodir yn ein dull o ymdrin â thargedau'r cynllun, bydd nifer o gynwysyddion na fyddant yn cael eu dychwelyd bob amser. Pan na chaiff cynhwysydd ei dychwelyd, bydd gwerth yr ernes ar y cynhwysydd hwnnw'n cael ei gadw gan y DMO. Ernes heb eu hadbrynu yw hon a gallai fod yn ffrwd o werth sylweddol i'r DMO, gan helpu i ariannu gweithrediad y cynllun. Mae hon yn ffrwd ariannu gyffredin a geir mewn llawer o gynlluniau DRS yn rhyngwladol.

Archwiliodd yr ymgynghoriad y defnydd o ernesau heb eu hadbrynu yn y cynllun. Gofynnwyd a oedd defnyddio lefel uchel o ernesau heb eu hadbrynu i ariannu'r cynllun yn broblem, gyda 60% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn dweud eu bod yn gweld hyn yn broblem. Buom yn archwilio hefyd a ddylid defnyddio'r holl ernesau heb eu hadbrynu i ariannu'r cynllun yn rhannol (opsiwn 1), neu a ddylai ernesau heb eu hadbrynu ariannu'r cynllun yn rhannol ochr yn ochr â ffi gofrestru fach i gynhyrchwyr bob blwyddyn gan sicrhau bod cynhyrchwyr yn cyfrannu cyfran benodol o gostau rhedeg y cynllun (opsiwn 2). Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr o blaid opsiwn 1, gyda'r holl ernesau heb eu hadbrynu'n mynd yn ôl i'r system.

Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai pob ernes heb eu hadbrynu ariannu'r cynllun yn rhannol i ba bynnag raddau y maent yn aros yn y system (opsiwn 1: 100% o ernesau heb eu hadbrynu'n cael eu hailfuddsoddi yn y DRS). Ystyriwyd a allai'r dull hwn greu cymhelliant negyddol lle mae'r DMO yn ennill refeniw sylweddol o ernesau heb eu hadbrynu ac felly'n cael ei gymell i beidio â chyrraedd targedau casglu'r cynllun oherwydd y refeniw a geir o ernesau heb eu hadbrynu. Er mwyn osgoi'r senario hon, bydd y DMO yn

cael dirwy os yw'n methu â chyrraedd ei dargedau casglu, a fydd wedi'u pennu ar lefel fyddai'n eu sbarduno i gyrraedd y targedau casglu. Mae hyn yn golygu y bydd y DMO yn cael ei gymell i gymryd camau i gasglu cymaint ag y gall, er enghraifft, drwy ddefnyddio gwerth ariannol yr ernes a galluogi mynediad rhwydd at seilwaith mannau dychwelyd i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu cymell i ddychwelyd eu cynwysyddion diodydd ac yn gallu gwneud hynny.

Pennu lefel yr ernes

Rydym am i'r DMO gael yr hyblygrwydd a'r rheolaethau sydd eu hangen i'w gynorthwyo i gyrraedd ei dargedau casglu statudol. Credwn fod rhoi'r gallu i'r DMO bennu ac yna newid lefel yr ernes yn ysgogiad hanfodol i hyn i'r DMO ei reoli.

Gofynnodd ein hymgyngoriad am lefelau ernes isaf ac uchaf gyda 60% o'r rhai a atebodd y cwestiwn am isafswm yn dewis 20c, ac roedd yr ymatebion yn gytbwys o ran a ddylai fod uchafswm (46% dylai / 53% na ddylai). Dadleuodd nifer o ymatebwyr y dylai'r DMO fod yn gyfrifol am osod a newid lefelau ernes. Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad safbwyntiau cymysg ar sut y dylid ymdrin ag amlbecynnau ac roedd 56% o'r ymatebion yn cytuno â'r dull o adael i'r DMO benderfynu a ddylid mabwysiadu lefel ernes sefydlog neu amrywiol, yn enwedig o ran amlbecynnau (cwestiwn 39).

Rydym wedi dod i'r casgliad y bydd gan y DMO y pŵer i bennu lefel yr ernes. Ni fydd rheoliadau'n pennu isafswm, ond bydd yn pennu uchafswm, gan roi hyblygrwydd i'r DMO bennu lefel ernes briodol h.y. un a fydd yn ei alluogi i gyrraedd ei darged casglu, o fewn y terfyn hwn. Byddwn yn pennu beth fydd y terfyn ernes uchaf fel rhan o gam nesaf y gwaith cyn i'r rheoliadau gael eu cwblhau.

Bydd y rheoliadau'n dweud mai'r DMO sydd i bennu lefel yr ernes, gan roi sylw i ystyriaethau gan gynnwys effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lefel yr ernes, a fyddai'n cynnwys yr effaith ar fforddiadwyedd i ddefnyddwyr. Bydd gan y DMO y gallu i osod naill ai ernes cyfradd sefydlog neu gyfradd amrywiol (a allai amrywio yn ôl maint, fformat neu fath o ddeunydd y cynhwysydd diodydd). Bydd y rheoliadau'n amlinellu'r broses y dylai'r DMO ei dilyn wrth wneud newid i lefel yr ernes.

Os bydd sawl DMO, bydd yn ofynnol iddynt gydweithio i gytuno a phennu'r un lefel(au) ernes (boed hynny'n gyfradd sefydlog neu amrywiol) ar draws yr holl gynwysyddion a gwmpesir. Os nad yw'r DMOs hynny'n gallu cytuno ar lefel yr ernes, bydd y rheoliadau'n gwneud darpariaeth i'r DMOs gysylltu â'r gweinidog(ion) perthnasol a fyddai'n gallu pennu lefel yr ernes mewn ymgynghoriad â nhw.

Fel gyda meysydd eraill yn y bennod hon, bydd pennu lefel yr ernes yn rhan allweddol o'r adolygiad rheolaidd o sut mae'r DRS yn gweithio, yn enwedig i sicrhau bod y dull ar gyfer pennu lefel yr ernes yn sbarduno cyflawni targedau ailgylchu.

TAW

Mae Llywodraeth (gan gynnwys Llywodraeth yr Alban), Trysorlys EM a Chyllid a Thollau EM (y ddau olaf yw'r adrannau arweiniol ar TAW) wedi bod yn trafod ychwanegu TAW at ernesau yn y DRS. Rydym yn cydnabod bod amrywiaeth o randdeiliaid wedi cyfrannu at yr ymgysylltu parhaus hwn hefyd, ac mae'r Llywodraeth yn diolch i'r rhai sydd wedi rhoi mewnbwn ar y mater hwn.

Mae gwaith i sicrhau y gellir defnyddio ateb TAW dichonadwy, costeffeithiol yn parhau ac, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn parhau i ymgysylltu ar y mater hwn ar draws y Llywodraeth a chyda rhanddeiliaid perthnasol.

Manwerthwyr a mannau dychwelyd

Cyhoeddiadau allweddol

- Bydd yn ofynnol i bob manwerthwr sy'n gwerthu cynhwysyddion a gwmpesir weithredu man dychwelyd, gyda cheisiadau eithrio yn cael eu gwneud i'r DMO.
- Bydd yn ofynnol i'r DMO ystyried lleoliad strategol mannau dychwelyd, er mwyn sicrhau bod rhwydwaith hygyrch a chynhwysfawr ohonynt.
- Disgwylir bod gwasanaeth derbyn yn ôl yn cael ei gynnig i bobl sy'n prynu ar-lein – o'r cychwyn cyntaf – yn enwedig gan fanwerthwyr bwyd ar-lein mawr.

Rhwymedigaethau manwerthwyr

Dylai dychwelyd cynhwysydd diodydd a gwmpesir fod yn fater hawdd. Felly, mae'n bwysig bod rhwydwaith cynhwysfawr a hygyrch o fannau dychwelyd. Ar y sail hon, bydd yn ofynnol i bob manwerthwr sy'n gwerthu cynhwysyddion a gwmpesir gadw man dychwelyd. Bydd senarios, wrth gwrs, pan na fydd yn bosibl i fanwerthwr gadw man dychwelyd, a bydd hynny'n golygu y bydd proses eithrio felly – a weithredir gan y DMO – ar gyfer y manwerthwyr hynny sy'n ceisio eithriad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ymhellach ymlaen yn yr adran hon.

Er mwyn cyflawni nodau craidd y cynllun, yn enwedig o ran lleihau sbwriel, bydd angen rhwydwaith helaeth o fannau dychwelyd ar draws ardaloedd trefol a gwledig er mwyn sicrhau ei bod mor hwylus â phosibl i ddefnyddwyr gymryd rhan yn y cynllun. Bydd y rheoliadau hefyd yn nodi gofyniad i'r DMO ystyried lleoliad strategol mannau dychwelyd ar sail ffactorau fel daearyddiaeth a demograffeg yr ardal. Er enghraifft, gallai hyn olygu ymchwilio a oes darpariaeth ddigonol o fannau dychwelyd mewn ardaloedd lle ceir nifer fawr o ymwelwyr (canolfannau siopa, hybiau trafnidiaeth). Fel rhan o'r asesiad hwn o'r rhwydwaith o fannau dychwelyd, dylai'r DMO ystyried gweithio'n agos gyda manwerthwyr, busnesau ac awdurdodau lleol i nodi lleoliadau addas ar gyfer mannau dychwelyd y tu allan i leoliadau manwerthu pwrpasol.

Bydd y rheoliadau'n gadael i'r manwerthwr benderfynu sut y derbynnir cynhwysyddion, boed hynny drwy beiriant gwerthu o chwith neu drwy wasanaeth derbyn yn ôl â llaw. Mae hyn yn caniatáu i fanwerthwyr ddewis model sy'n gweddu orau i'w busnes ac sy'n gadael y drws ar agor i ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol gael eu cynnwys yn y cynllun.

Yn ogystal â mannau dychwelyd manwerthwyr, bydd unrhyw un sy'n dymuno gweithredu man dychwelyd yn gallu gwneud cais i'r DMO i ddod yn weithredwr man dychwelyd gwirfoddol yn unol â phroses ymgeisio a bennir gan y DMO. Byddem yn disgwyl i'r DMO weithio gyda'r trydydd sector, gan annog grwpiau cymunedol a sefydliadau dielw i gymryd rhan yn y cynllun, megis drwy weithredu mannau dychwelyd.

Bydd gan fanwerthwyr sy'n gorfod gweithredu man dychwelyd yr hawl i wrthod eitemau a ddychwelir lle na yw amodau derbyn yn ôl yn cael eu bodloni. Bydd y rheoliadau'n cynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o 'esgusodion rhesymol' i wrthod yr eitem a ddychwelir, gan gynnwys:

- nad oes modd adnabod y cynhwysydd fel cynhwysydd DRS
- nad yw'r cynhwysydd yn lân
- nad yw'r cynhwysydd yn wag

- am resymau crefyddol / moesegol (lle mae cynwysyddion diodydd alcoholig yn cael eu dychwelyd)

Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, lle mae cynwysyddion yn cael eu gwerthu mewn amgylchedd dolen gaeedig, megis mewn tafarndai, gwestai, bwytai a chaffis, ni fydd rhaid i'r manwerthwr drosglwyddo'r ernes i'r defnyddiwr lle mae'r ddiodydd yn y cynhwysydd yn cael ei hyfed ar y safle. Yn ogystal, ni fydd rhaid i'r lleoliadau hyn weithredu man dychwelyd os nad ydynt yn trosglwyddo'r ernes, ond bydd yn dal i fod yn ofynnol iddynt drefnu i'r cynwysyddion diodydd gael eu casglu a'u dychwelyd i'r DMO. I'r manwerthwyr hyn, gallai rheoli gwasanaeth dychwelyd ernes amharu'n sylweddol ar eu model busnes, gan achosi oedi i'r gwasanaeth, yn enwedig mewn lleoliadau llawn pobl, ac mae natur yr yfed yn yr amgylchedd dolen gaeedig yn golygu y gellir cymhwyso'r eithriadau a restrir uchod. Gallant ddewis trosglwyddo'r ernes i'r defnyddiwr o hyd ond, os byddant yn gwneud hynny, bydd angen iddynt ddarparu gwasanaeth derbyn yn ôl yn unol â'r gofynion a nodir ar gyfer manwerthwyr.

Ffi trafod

Archwiliodd yr ymgynghoriad y syniad o dalu ffi trafod i weithredwyr manau dychwelyd, i'w digolledu am gostau na ellir eu hadennill am gymryd rhan yn y cynllun. Bydd y manwerthwr yn derbyn ffi trafod manwerthwyr gan y Sefydliad Rheoli ernes i'w ddigolledu am gostau a ysgwyddir wrth weithredu man dychwelyd. Yn yr un modd â chostau gweithredu eraill y cynllun, bydd y ffi trafod yn cael ei hariannu drwy gyfuniad o refeniw o'r deunydd y mae'r DMO yn ei gasglu a'i werthu i ailbroseswyr, ffioedd cofrestru cynhyrchwyr ac ernesau heb eu hadbrynu.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig, wrth bennu'r ffi trafod, y dylai'r DMO ystyried y meini prawf canlynol:

- costau prynu, prydlesu, atgyweirio neu gynnal a chadw unrhyw seilwaith casglu/storio, gan gynnwys unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer casgliadau;
- costau deunyddiau ar gyfer casglu/storio cynwysyddion
- gofynion gofod y man dychwelyd
- staffio
- chostau cyfleustodau gweithredu'r man dychwelyd (e.e. trydan)

Roedd 83% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r meini prawf arfaethedig, gyda chyfran sylweddol yn awgrymu, o ystyried y tebygolrwydd y bydd costau'n newid dros amser, y dylid adolygu ffioedd trin a thrafod yn rheolaidd. Gan ystyried y safbwyntiau hyn, caiff y meini prawf hyn eu cynnwys yn y rheoliadau, y mae'n rhaid i'r DMO eu hystyried wrth gyfrifo'r ffi trafod. Bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r DMO adolygu'r ffi trafod yn rheolaidd.

Eithriadau rhag gweithredu man dychwelyd

Er ein bod am i bob manwerthwr dan orfodaeth redeg man dychwelyd, rydym yn cydnabod y gallai fod angen eithriad dan rai amgylchiadau. Gall yr eithriadau hyn fod yn arbennig o berthnasol i fanwerthwyr llai, bach o ran maint lle gallai gweithredu man dychwelyd fod yn amhosibl yn ffisegol.

Roedd mwyafrif sylweddol yr ymatebwyr o blaid y ddau eithriad a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, 1) torri amodau diogelwch (ôl troed y man dychwelyd yn amharu ar ddiogelwch y llwybr cerdded, er enghraifft) a 2) agosrwydd at fan dychwelyd arall. Felly,

bydd y rheoliadau'n nodi y gall manwerthwr wneud cais i'r DMO am eithriad yn seiliedig ar y naill faen prawf neu'r llall. Bydd y DMO yn gyfrifol am egluro'r broses ymgeisio am eithriad man dychwelyd a bydd yn penderfynu a ganiateir eithriadau. Cyn caniatáu unrhyw eithriadau, bydd angen i'r DMO ystyried unrhyw faterion hygyrchedd a allai gael eu hachosi i ddefnyddwyr sydd am ddychwelyd cynwysyddion.

Fodd bynnag, bydd gan fanwerthwyr sydd wedi'u heithrio rhag gweithredu man dychwelyd rwymedigaethau eraill o dan y DRS. Archwiliodd yr ymgynghoriad rôl arwyddion o ran osgoi gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr a staff manwerthu ynghylch ble i ddychwelyd eitemau, osgoi oedi i'r gwasanaeth, a sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad hawdd i fannau dychwelyd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai manwerthwyr a eithrir orfod darparu arwyddion yn nodi eu bod wedi'u heithrio rhag gweithredu man dychwelyd a chyfeirio pobl at y man dychwelyd agosaf, waeth beth fo'r rheswm dros yr eithriad. Yn ogystal, tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am wybodaeth ynghylch sut i gysylltu â'r DMO i ganiatáu llwybr ar gyfer sylwadau neu i dynnu sylw at broblem o ran cael mynediad at fan dychwelyd. Gan ystyried hyn, bydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fanwerthwr sydd wedi'i eithrio rhag gweithredu man dychwelyd, waeth beth fo'r rheswm dros yr eithriad, arddangos arwyddion sy'n nodi'r eithriad, gwybodaeth am sut i gysylltu â'r DMO a lleoliad y man dychwelyd agosaf.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i ymatebwyr ystyried terfyn amser priodol ar gyfer eithriadau hefyd, y bydd yn ofynnol i'r DMO adolygu'r eithriad wedi hynny. Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr dair blynedd fel cyfnod priodol ac felly bydd deddfwriaeth yn nodi y bydd eithriadau'n cael eu hadolygu gan y DMO bob tair blynedd ac y gellir eu dirymu pan fydd un o'r meini prawf canlynol yn cael ei fodloni:

- nid yw'r rheswm gwreiddiol dros yr eithriad yn gymwys mwyach
- mae'r manwerthwr wedi methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau fel manwerthwr eithriedig (e.e. methu ag arddangos arwyddion gofynnol)
- mae'r manwerthwr eithriedig yn dymuno gweithredu man dychwelyd yn awr

Bydd y rheoliadau'n caniatáu i'r DMO ddirymu'r eithriad hefyd cyn y cyfnod adolygu tair blynedd hwn os daw'r DMO i wybod am unrhyw un o'r uchod.

Prynu cynwysyddion diodydd a gwmpesir ar-lein

Yn achos manwerthwyr ar-lein, dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad ddymuniad i orfodi'r manwerthwyr hyn i gynnig gwasanaeth derbyn yn ôl am ddim ar gyfer cynwysyddion gwag. Prif ddiben gwasanaeth derbyn yn ôl yw cynorthwyo defnyddwyr sy'n dibynnu'n bennaf neu'n gyfan gwbl ar siopa ar-lein ac a fyddai'n ei chael yn anodd cael mynediad at fan dychwelyd ffisegol fel arall i adbrynu eu hernes. Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw'r ddysgl yn wastad rhwng hyn a'r potensial am ganlyniadau anfwriadol, megis mwy o draffig ffyrdd, ac felly llygredd, lle mae manwerthwyr yn cael eu gorfodi i wneud teithiau ychwanegol i gasglu nifer fach o gynwysyddion o gyfeiriadau lluosog, gan danseilio manteision amgylcheddol y DRS.

"Rydym am sicrhau bod gwasanaeth cymryd yn ôl ar gael i ddefnyddwyr ar gyfer eu cynwysyddion pan fo'i angen arnynt. Rydym yn cydnabod y bydd nifer o ddefnyddwyr yn ei chael yn anodd cael mynediad at fannau dychwelyd er mwyn cael eu hernes yn ôl, ac felly mae'n ddymunol trefnu bod modd cael ernes yn ôl ar garreg y drws er mwyn hybu cyfranogiad yn y cynllun. Rydym yn cydnabod pryderon a godwyd gan y diwydiant

ynghylch gweithredu gwasanaeth cymryd yn ôl, ac yn awyddus i barhau i weithio gyda'r diwydiant er mwyn datblygu'r manylion ynglŷn â sut y gallai hyn weithio yn ymarferol. Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod archfarchnadoedd mawr sy'n cludo bwyd yn cynnig gwasanaeth cymryd yn ôl o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal ag ystyried sut y gallai busnesau eraill weithredu gwasanaeth cymryd yn ôl lle bo hynny'n ddichonadwy.

Bydd manwerthwyr ar-lein sy'n cynnig gwasanaeth cymryd yn ôl yn gymwys i dderbyn ffi trafod i dalu costau'r gwasanaeth. Bydd deddfwriaeth yn nodi hefyd y meini prawf y bydd gofyn i'r DMO eu hystyried wrth bennu ffi trafod ar gyfer manwerthwyr ar-lein.

Caniatâd cynllunio ar gyfer gweithredu peiriant gwerthu gwrthdro

Fel y nodwyd eisoes, mae llwyddiant DRS yn dibynnu ar hwylustod mynediad i fannau dychwelyd i ddefnyddwyr. Os yw'n ofynnol i fanwerthwyr wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer peiriannau gwerthu gwrthdro y tu allan i'w heiddo, gallai arwain at oedi wrth weithredu'r cynllun a bod yn gost ychwanegol i fanwerthwyr. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid creu hawl datblygu newydd a ganiateir ar gyfer peiriannau gwerthu o chwith er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n ddidrafferth.

Felly, bydd y Llywodraeth yn mynd ar drywydd hawl datblygu ychwanegol a ganiateir ar gyfer peiriannau gwerthu o chwith ym mhob gwlad. Dylid cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ym mhob gwlad, yn amodol ar ystyriaeth gan Weinidogion perthnasol a chan gynnwys dynodiadau sy'n benodol i'r wlad.

Ni fyddai'r hawl datblygu a ganiateir yn gymwys i fwriad i osod peiriannau gwerthu gwrthdro mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (neu gyfwerth) neu leoliad neu gwrtil adeilad rhestredig/heneb gofrestredig neu safle o ddiddordeb archaeolegol oni bai bod cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer y datblygiad wedi'i ganiatáu'n flaenorol.

Defnyddio technoleg mewn DRS

Archwiliodd yr ymgynghoriad ymddangosiad cynyddol atebion technoleg hefyd, sy'n defnyddio codio unigryw ar gynwysyddion ynghyd â'r gallu i sganio'r cod gyda ffôn clyfar a allai olygu y gellid dychwelyd ernesau yn nes at y pwynt yfed, er enghraifft, yn y cartref, yn ogystal â'r model dychwelyd i fanwerthwyr.

Roedd ymatebion, yn enwedig gan ddefnyddwyr, yn dangos cefnogaeth i ryw fath o system ddychwelyd ddigidol wrth ymyl y ffordd. Y prif gymhellant oedd rhwyddineb defnyddio a chyfleustra cyffredinol gan fod llawer o agweddau eraill ar gyllid personol a siopa yn cael eu gwneud bellach gan ddefnyddio technoleg ddigidol – yn enwedig ffonau clyfar. Dangosodd cefnogaeth i ateb digidol y gallai leihau'r ddibyniaeth ar beiriannau gwerthu gwrthdro wedi'u lleoli gyda manwerthwyr, gyda llai o gynwysyddion diodydd yn cael eu dychwelyd yn y modd hwn, ac yn h-trach byddai'n cynyddu'r defnydd o fathau eraill o ddychwelyd, megis drwy wasanaethau casglu ymyl y ffordd presennol. Mynegodd rhai busnesau ddiddordeb mewn archwilio ateb digidol hefyd gan ei fod yn cynnig cyfle i ymgysylltu'n well â defnyddwyr ynghyd ag olrhain pecynnau diodydd yn fanwl o'r crud i'r bedd a thrwy hynny ehangu gwybodaeth am gyrchfan y gwastraff pacio a gynhyrchir ymhellach. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth hon yn llai brwdfrydig oherwydd diffyg gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch sut y gellid cyflwyno cynllun digidol a'i redeg yn gost-ffeithiol.

Yn fwy cyffredinol, cafwyd cefnogaeth gymysg gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Codwyd pryderon ynghylch mabwysiadu model digidol oherwydd costau sefydlu a rhedeg, yn enwedig o ran y risg o gynnydd yn lefelau twyll ac am y bydd llai o reolaeth ar ansawdd y deunydd a ddychwelir i'r cynllun. Dywedodd eraill y gellid cyflwyno DRS digidol gyda chostau gweithredu a rhedeg is, o ystyried y ddibyniaeth lai ar beiriannau gwerthu o chwith a defnyddio'r seilwaith casglu presennol, gan gael gwared ar yr angen i sefydlu rhwydwaith logisteg newydd ar gyfer DRS yn benodol a chanolfannau cyfrif cysylltiedig. Codwyd y posibilrwydd o sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran arbed carbon drwy ateb digidol o'i gymharu â dychwelyd i fanwerthwyr yn unig hefyd o ystyried y potensial i ddefnyddio'r seilwaith casglu presennol. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd nad yw'r newidiadau sydd eu hangen i labelu cynwysyddion i hwyluso gweithredu DRS digidol yn bosibl yn y diwydiant ar hyn o bryd.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddi-ddordeb mewn arwain y gwaith o ddatblygu'r potensial ar gyfer DRS digidol fel y'i disgrifir oherwydd gallai ganiatáu i ddeiliaid tai barhau i ddefnyddio eu gwasanaethau casglu ymyl y ffordd a ddarperir gan eu hawdurdod lleol i ddychwelyd cynwysyddion a gwmpesir gan y DRS pan fyddant yn y cartref, yn ogystal â'r rhwymedigaeth ar fanwerthwyr sy'n gweithredu fel mannau dychwelyd. O'r herwydd, roedd yr asesiad effaith economaidd ar wahân a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r cynllun yng Nghymru yn modelu cost system ddigidol yn benodol. Hyd yn oed gyda rhywfaint o ansicrwydd yn y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd, dangosodd y gellid gweithredu system ddigidol am gost is na model dychwelyd i fanwerthwyr traddodiadol.

Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch sut y gellid gweithredu system ernes/dychwelyd cynwysyddion cartref ddigidol ac os gellir gwireddu'r manteision tybiedig. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu rhagor o ymchwil a gwaith gwerthuso ar y pwnc. Bydd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, drwy broses penodi'r DMO, yn ceisio deall mwy gan ymgeiswyr ynghylch sut y gellid gweithredu neu brofi system ddigidol ymhellach fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cynllun yn y pen draw. Pe bai'r ymchwil a'r treialon parhaus yn y maes yn dangos y byddai'n briodol datblygu'r DRS i fod yn gynllun digidol o ryw fath, dylai'r DMO a'r diwydiant ehangach ddechrau archwilio ymarferoldeb a dichonoldeb cyflwyno atebion digidol ar gyfer y cynllun yn y dyfodol.

Awdurdodau lleol, cynghorau lleol a gweithredwyr gwastraff

Cyhoeddiadau allweddol

- Gall awdurdodau lleol, a lle bo'n berthnasol, weithredwyr gwastraff, gymryd rhan yn y DRS drwy wahanu cynwysyddion ac adbrynu'r ernes arnynt.

Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun yn casglu mwy na 90% o gynwysyddion DRS a roddir ar y farchnad o flwyddyn 3 gweithredu'r cynllun ymlaen. Mae'n debygol y bydd llawer o'r cynwysyddion hynny na ddychwelir yn parhau i deithio drwy ffrydiau gwastraff awdurdodau lleol.

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi 3 opsiwn ar gyfer rheoli cynwysyddion DRS sy'n ymddangos yn ffrydiau gwastraff awdurdodau lleol /cynghorau lleol. Er bod llawer o'r ymatebion o blaid opsiwn 2, a fyddai'n golygu bod y DMO yn gwneud taliadau drwy weinyddwr y cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig i awdurdodau lleol am gynwysyddion sy'n mynd i'r ffrwd wastraff honno, ar ôl archwilio ymhellach, nid ydym yn credu bod hyn yn opsiwn ymarferol, yn bennaf oherwydd y risg o daliadau dwbl pe bai cynwysyddion yn dal i gael eu gwahanu a'u dychwelyd i'r cynllun.

Felly, rydym wedi penderfynu mynd ar drywydd opsiwn 1 a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, lle gall awdurdodau lleol a/neu weithredwyr gwastraff wahanu cynwysyddion diodydd a gwmpesir a geir yn eu ffrydiau gwastraff ac yna dychwelyd y cynwysyddion hyn i'r cynllun, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion ansawdd sydd eu hangen ar gyfer dychwelyd, i dderbyn y swm ernes, sy'n gweithredu fel cymhelliant ariannol. Rydym yn gweld hefyd fod y sefyllfa hon yn cymhell y DMO i weithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr gwastraff i sicrhau bod cymaint o ddeunydd DRS â phosibl yn cael ei dychwelyd, gan helpu'r DMO i gyrraedd ei dargedau casglu a chadw'r deunydd fel rhan o'r model DRS dolen gaeedig.

Monitro a gorfodi cydymffurfiaeth

Unwaith y bydd y DRS ar waith, mae angen sefydlu system i fonitro cydymffurfiaeth â'r cynllun. Bydd y rheoliadau'n gosod rhwymedigaethau penodol ar gyfranogwyr y cynllun (cynhyrchwyr, manwerthwyr a'r DMO) gyda mecanweithiau cydymffurfio cyfatebol. O ran gweithio gyda chynhyrchwyr a manwerthwyr, ein bwriad yw y byddai disgwyl i'r DMO ymgymryd â gwaith monitro a gorfodi cychwynnol os nad yw busnesau'n cadw at y rheoliadau. Buom yn archwilio'r rôl hon ar gyfer y DMO yn yr ymgynghoriad ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno y dylai'r DMO geisio cydymffurfiaeth cyn uwchgyfeirio achosion o dorri amodau i'r rheoleiddiwr. Credid y gallai hyn leihau baich y rheoleiddiwr drwy fynd i'r afael â materion llai arwyddocaol sy'n golygu y gallai'r rheoleiddiwr ganolbwyntio ar y materion mwy difrifol fel twyll cyfundrefnol. Os bydd achosion o dorri rheolau'n parhau, yna bydd y broses orfodi'n dechrau, a bydd y rheoleiddiwr yn darparu gorfodaeth gyfreithiol yn ôl yr angen.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, rydym o'r farn mai'r rheoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd yn y sefyllfa orau i fod yn Rheoleiddwyr ar y Cynllun a byddwn yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddwyr hyn wrth i ni fireinio agwedd orfodi'r cynllun dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y rhwymedigaethau y bydd y rheoleiddwyr hyn yn gyfrifol amdanynt yn cael eu hegluro yn rheoliadau'r DRS ond byddant yn dilyn y rhestr nad yw'n gynhwysfawr o achosion o dorri amodau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n fras bod y rhestr hon yn cynnwys yr achosion craidd o dorri'r rheolau y byddai angen eu monitro a'u gorfodi yn y cynllun. Awgrymodd rhanddeiliaid fod twyll a labelu anghywir yn feysydd yr oedd angen rhoi mwy o ystyriaeth iddynt.

Roedd yr ymgynghoriad yn archwilio rôl awdurdodau lleol hefyd (drwy Safonau Masnach a'r Cynllun Awdurdod Sylfaenol) i ddarparu canllawiau a gorfodaeth mewn perthynas â rhwymedigaethau manwerthwyr. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn mai Safonau Masnach oedd yn y sefyllfa orau i orfodi rhwymedigaethau penodol ar fanwerthwyr. Cododd awdurdodau lleol bryderon ynghylch y costau a'r staffio y byddai eu hangen i ychwanegu at eu dyletswyddau presennol gyda manwerthwyr. Unwaith eto, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid galluogi'r DMO i gynnal gwiriadau cydymffurfio cychwynnol i weithgarwch yr adroddir ei fod yn torri'r rheoliadau. Gallai hynny ganiatáu i Safonau Masnach a'r rheoleiddwyr dderbyn gwybodaeth bwrpasol ac yna gwneud penderfyniadau gwybodus ar y camau nesaf. Ar y sail hon, byddwn yn rhoi'r cyfrifoldeb dros fonitro a gorfodi rhai o'r rhwymedigaethau ar fanwerthwyr yn nwylo awdurdodau lleol drwy Safonau Masnach.

Bydd angen i'r cynhyrchwyr ariannu rheoleiddwyr amgylcheddol i gynnal gweithgarwch monitro cydymffurfiaeth sy'n gymesur ac yn seiliedig ar risg fel rhan o'u ffioedd i'r DMO. Rydym yn rhagweld y bydd taliad gan y DMO i'r rheoleiddwyr yn cael ei wneud i dalu am y gweithgarwch rheoleiddio gofynnol. Bydd y Llywodraeth a rheoleiddwyr y cynllun yn parhau i ddatblygu manylion ac agweddau ymarferol monitro a gorfodi ar gyfer y cynllun cyn iddo fynd yn fyw. Ein bwriad yw gweithio gyda'r rheoleiddwyr yn yr Alban i ddatblygu

dull cydlynol ledled y DU lle bo modd. Rydym yn cyfathrebu â Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon hefyd ynghylch effeithiau posibl ei DRS, a'r rhyngweithio ag ef.

Llinell amser gweithredu

Cyhoeddiadau allweddol

- Yng ngham nesaf rhoi'r DMS ar waith, byddwn yn paratoi fersiwn derfynol o'r rheoliadau ac yn penodi'r DMO. Ein nod yw y bydd y rheoliadau'n dod i rym erbyn diwedd 2023 a bod y DMO wedi'i benodi erbyn haf 2024.
- Rydym yn cynnig dyddiad cychwyn y DRS yn y rheoliadau, sef 1 Hydref 2025. Mae hwn yn ddyddiad targed heriol. Hoffem barhau i weithio gyda'r diwydiant i asesu dichonoldeb y dyddiad hwn wrth i fwy o fanylion gael eu datblygu am gamau gweithredu'r cynllun, gan gynnwys proses ymgeisio'r DMO.

Archwiliodd yr ymgynghoriad yr amserlen sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu DRS, gan roi trosolwg o'r gweithgareddau allweddol sydd eu hangen i gyflawni hyn. Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr o blaid cyfnod cyflwyno o 18-24 mis o leiaf o'r pwynt y penodir y DMO, gan argymhell y dylai unrhyw gyfnod gweithredu ganiatáu digon o amser ar gyfer gwneud newidiadau labelu a chyflwyno'r seilwaith. Nodwyd goblygiadau tymhorol hefyd, yn enwedig o amgylch cyfnod y Nadolig, gyda'r pwysau cynyddol ar y gadwyn gyflenwi.

Yn ogystal ag ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth am gynlluniau eraill, yn enwedig cyflwyno'r cynllun yn yr Alban. Rydym am fod yn siŵr ein bod yn dewis dyddiad gweithredu sy'n uchelgeisiol ond realistig – rydym yn sylweddoli y daw'r DRS â newidiadau aruthrol i'r diwydiant a bod angen cryn amser paratoi.

Bydd tri cham i roi'r DRS ar waith:

- Cam 1: gweithgarwch gan y Llywodraeth, hyd at benodi DMO.
- Cam 2: sefydlu'r DMO
- Cam 3: rhoi'r DRS ar waith

Ar gyfer Cam 1, ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon, byddwn yn cau pen mwdwl y ddeddfwriaeth, gan wneud yr hyn sydd ei angen i sicrhau ei bod yn gweithio'n ymarferol. Yna bydd gofyn i'r ddeddfwriaeth gael ei glirio'n briodol cyn ei osod gerbron Senedd y DU. Ein nod yw cael y rheoliadau yn eu lle erbyn diwedd 2023. Byddwn wedyn yn penodi'r DMO gyda'r bwriad o gyhoeddi'r DMO erbyn haf 2024.

Ar ôl penodi'r DMO, aiff Cam 2 yn ei flaen i sefydlu'r DMO. Bydd tasgau'r Cam hwn yn cynnwys: penodi bwrdd; penodi staff y DMO; trefnu a sicrhau cyllid; gwneud penderfyniadau dylunio cychwynnol e.e. ynghylch labeli a lefel yr ernes; a chynllunio mwy cyffredinol fel glasbrint gweithredol ar gyfer y DRS a phenderfynu ynghylch casgliadau a chanolfannau cyfrif.

Yng Ngham 3, bydd y diwydiant yn cyfrannu at roi'r DRS ar waith. Bydd prif elfennau'r gwaith yn cynnwys cael y DMO i benodi a gweithio gyda phartneriaid cyflawni a logisteg; sefydlu canolfannau cyfrif; lansio ymgyrchoedd cyfathrebu; dylunio a lansio system TG; bwrw ymlaen â chyflwyno'r RVM; a rhoi cyngor i gynhyrchwyr ar y newidiadau angenrheidiol i labeli cyn y daw'r DRS yn fyw.

Bydd Camau 2 a 3 yn digwydd o dan arweiniad y diwydiant ac yn gofyn am newidiadau ar draws nifer fawr o sectorau. Mae angen i ni felly bennu dyddiad ymlaen llaw yn y rheoliadau pryd y daw'r cynllun yn fyw. Rydym wedi cynnig mai dyddiad cychwyn y DRS fydd 1 Hydref 2025, fan hwyraf.

Hoffem barhau i weithio gyda'r diwydiant i asesu dichonoldeb y dyddiad hwn wrth i fwy o fanylion gael eu datblygu yn ystod Cam 1, gan gynnwys fel rhan o broses ymgeisio'r DMO. Hoffem ymchwilio i opsiynau gweithredu eraill hefyd a allai'n helpu i sicrhau llwyddiant o ddiwrnod 1. Bydd ein deialog â'r diwydiant am hyn yn parhau.

Byddwn yn cadw golwg ar y dyddiad hwn wrth i ni weithio trwy'r camau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n amserlen uchelgeisiol ond realistig.

Gorfodi deunydd pacio DRS Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon am gyfnod yn y cyfamser

Bydd bwlch rhwng lansio Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd ar gyfer deunydd pacio a lansio DRS ar gyfer cynwysyddion diodydd. Mae hyn yn golygu bod y Llywodraeth wedi gorfod ystyried sut y dylai deunydd pacio sydd i'w orfodi o dan y DRS gael ei orfodi rhwng yr adegau y bydd y ddau gynllun yn mynd yn fyw.

Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pacio a gwmpesir gan y DRS barhau i fodloni rhwymedigaethau ailgylchu drwy gaffael Nodiadau Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio a Nodiadau Ailgylchu Allforio Gwastraff Deunydd Pacio. Gallant gyflawni eu rhwymedigaethau drwy ymuno â chynllun cydymffurfio neu drwy gofrestru gyda rheoleiddiwr a chydymffurfio'n uniongyrchol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Ni fydd yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pacio DRS dalu'r ffioedd costau gwaredu o dan Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd am eu deunydd pacio sy'n rhan o wastraff cartref neu mewn biniau stryd yn y pen draw. O ystyried y dylai'r prif ffocws fod ar baratoi i'r DRS fynd yn fyw, nid yw'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn ddymunol gorfodi cynhyrchwyr deunydd pacio DRS i dalu costau gwaredu o dan Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd am y cyfnod yn y cyfamser.

Yn y cyfnod yn y cyfamser cyn cychwyn y DRS, daw poteli gwydr a fydd yn rhan o'r DRS yng Nghymru pan ddaw'r cynllun yn fyw, o dan oblygiadau costau gwaredu Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd gan ei wneud yn gyson â'r gofynion ar gyfer poteli gwydr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Pan aiff y DRS yn fyw, ni fydd gofyn talu'r costau gwaredu hyn ar gyfer poteli diodydd gwydr yng Nghymru.